PROSIECT GWYRDD DATGANIAD I'R WASG

Mai 2009

Safle opsiynol i gynyddu'r gystadleuaeth yn y farchnad

Bydd pob un o bartneriaid Prosiect Gwyrdd yn cyflwyno adroddiad i bob 'Cyngor Llawn' priodol, i geisio cael caniatâd i'r bartneriaeth symud ymlaen tuag at gaffael i ddarparu'r ateb amgylcheddol, cost effeithiol ac ymarferol gorau i wastraff gweddilliol ar ôl gwneud y mwyaf o ailgylchu a chompostio ym mhob ardal.

Mae'r bartneriaeth yn rhagweld cynnig safle opsiynol yn Queensway Meadows yn Tatton Road yng Nghasnewydd, a gynigir i'r farchnad, ar y gyfradd farchnad bresennol ochr yn ochr â chwmnïau preifat sydd wedi sicrhau tir arall ar gyfer eu cynigion.

Mae'r Ymgynghorwyr technegol ar gyfer y project hwn, Parsons Brinkerhoff, wedi asesu'r holl safleoedd sy'n berchen i'r cyhoedd yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol ac mae'r safle hwn wedi'i ddewis fel y safle cyhoeddus mwyaf priodol y gellir ei ddatblygu i ddarparu ar gyfer pob datrysiad technegol posibl ar gyfer y project hwn.

Cynigir y safle hwn i'r farchnad i gynyddu cystadleuaeth i sicrhau bod cwmnïau bedwar ban byd yn gallu cynnig am y contract hwn.

Dywedodd y Cynghorydd David Fouweather, Cadeirydd Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Diogelwch Cymunedol yng Nghyngor Casnewydd:

> "Os rhoddir cymeradwyaeth gan y pump awdurdod i symud ymlaen tuag at gaffael, bydd cynnig safle cyhoeddus yn cynyddu cystadleuaeth yn y farchnad. Gall unrhyw gwmni a all gynnig technoleg wedi'i phrofi i ddelio â gofynion y partneriaethau gynnig am y contract hwn. Nid yw'n golygu mai dyma'r safle dewisol, bydd unrhyw gwmni sydd wedi sicrhau tir preifat yn gallu cynnig yn yr un modd am y contract Prosiect Gwyrdd."'

> "Bydd y Bartneriaeth yn cyflwyno'u gofynion i'r farchnad a'r farchnad sy'n gyfrifol am gystadlu i ddarparu'r ateb amgylcheddol, cost effeithiol ac ymarferol gorau i wastraff gweddilliol ar ôl gwneud y mwyaf o ailgylchu a chompostio'r gwastraff hwnnw ym mhob ardal."

a gyhoeddwyd gan prosiect gwyrdd
e-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk
dros y ffôn: 029 20 717523